

Rydyn ni eisiau dy farn di ar
wisg ysgol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Rho dy farn
di i ni erbyn
21 Chwefror 2019

Llywodraeth Cymru sydd wedi ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yma i wneud Cymru yn lle gwyh i fyw, gweithio a mynd i'r ysgol.

Rydyn ni eisiau gwybod beth wyt ti'n feddwl am wisg ysgol.

Does yna ddim cyfraith ynghylch gwisg ysgol, ond mae pob ysgol yng Nghymru yn gallu penderfynu a oes raid i ddisgyblion wisgo un ai peidio.

Mae gwisg ysgol yn beth da am lawer o resymau, ond rydyn ni eisiau i ysgolion wneud yn siŵr fod pobl yn gallu fforddio gwisg ysgol a'i bod yn deg â phawb. Meddwl am gostau gwisg ysgol, a bod yn deg i bawb.

Mae rhagor o wybodaeth yma:

<https://beta.llyw.cymru/polisiau-gwisg-ysgol-ac-edrychiad-disgyblion-canllawiau-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu>



Pam mae eisiau dy farn di arnom ni

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn deg mewn perthynas â gwisg ysgol

Mae hyn yn golygu ein bod yn disgwyl i dy ysgol di ddilyn yr un canllawiau â phob ysgol arall yng Nghymru.



Beth ydym ni'n ei feddwl

- Rydyn ni'n meddwl y dylai pawb allu fforddio gwisg ysgol.
- Rydyn ni'n meddwl y dylai pawb allu cael gwisg ysgol yn hawdd.
- Rydyn ni'n credu y dylai gwisg ysgol fod yn deg i bob disgybl.
- Rydyn ni'n meddwl, os yw'r tywydd yn rhy boeth neu'n rhy oer, y dylai disgyblion allu newid eu gwisg ysgol.

Beth ydym ni'n ei ddisgwyl

- Bydd ysgolion yn dal i reoli gwisg ysgol.
- Bydd ysgolion yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu fforddio gwisg ysgol.
- Bydd ysgolion yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael gwisg ysgol.
- Bydd ysgolion yn gwneud yn siŵr bod gwisg ysgol yn deg i bob disgybl.
- Bydd disgyblion yn cael gwisgo gwisg wahanol os yw'n boeth iawn neu'n oer iawn.

Cwestiynau i ti

1. Wyt ti'n meddwl y dylai ysgolion wneud yn siŵr nad yw gwisg ysgol yn rhy ddrud wrth benderfynu ar reolau gwisg ysgol?

YDW

NAC YDW


Pam?

2. Wyt ti'n meddwl y dylai ysgolion wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael gwisg ysgol wrth benderfynu ar reolau gwisg ysgol?

YDW

NAC YDW

Pam?



3. Wyt ti'n cytuno y dylai gwisg ysgol
fod yr un fath i bob disgybl?

YDW

NAC YDW


Pam?

4. Wyt ti'n cytuno y dylai disgyblion allu newid eu gwisg ysgol os yw'n boeth iawn neu'n oer iawn?

YDW

NAC YDW

Pam?



S. Wyt ti'n meddwl y byddai rheolau newydd ynghylch gwisg ysgol yn cael mwy o bobl i siarad Cymraeg?

YDW

NAC YDW

Pam?

6. Wyt ti'n meddwl y byddai'r newidiadau hyn yn gwneud y Gymraeg a'r Saesneg yn fwy cyfartal?

YDW

NAC YDW

Pam?




Arall

7. Defnyddia'r blwch isod i roi unrhyw sylwadau eraill:

**Fe hoffon ni rannu'r atebion hyn gyda phobl eraill.
Clicia'r botwm os byddai'n well gen ti gadw'r atebion yn gyfrinachol:**

Cofiwch gael arwydd rhiant neu warcheidwad yma os rwyd ti o dan 18 oed:



Gweler y dudalen nesaf ar gyfer gwybodaeth Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).



Gofalu am wybodaeth amdanoch chi. Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw wybodaeth a roddwch inni wrth ymwneud â'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pwerau i benderfynu sut i gymryd eich gwybodaeth a'i defnyddio i wneud eu gwaith.

Bydd staff Llywodraeth Cymru yn gweld sut rydych wedi ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Os bydd Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanylach ar yr ymgynghoriad, efallai y bydd yn gofyn i sefydliadau eraill ddefnyddio'r wybodaeth, ond os gwnaiff Llywodraeth Cymru hyn, byddwn yn gwneud yn siŵr fod y sefydliadau hyn yn cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu adroddiad yn dangos rhai o'r sylwadau a wnaeth pobl.

Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu'ch cyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn yn gwneud yn siŵr wedyn cyn cyhoeddi nad yw'ch manylion yn cael eu cynnwys.

Dylech wybod hefyd fod modd i bobl ofyn i ni am wybodaeth (y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth).

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol.

Bydd unrhyw ddata o'ch eiddo a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am gyfnod o dair blynedd neu lai.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am y data personol a ddelir amdanoch a chael mynediad ato
- cael cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hwnnw
- cael dweud (o dan rai amgylchiadau) nad ydych am inni ddefnyddio'r cyfan neu ran o'ch data personol
- cael eich data wedi'i ddileu (o dan rai amgylchiadau)
- cael eich data wedi'i symud (o dan rai amgylchiadau)
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

I gael manylion pellach am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am ymarfer eich hawliau dan GDPR, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 21 Chwefror 2019 ar yr hwyraf.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg

Y Gyfarwyddiaeth Addysg


Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: schoolfundingmailbox@llyw.cymru



Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gais.

Gellir gweld y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau